

PWYLLGOR DATHLU ACHUB LLANGYNDEYRN A CHWM GWENDRAETH FACH

**Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Nhafarn y Ffermwyr, Llangyndeyrn
10fed o Ionawr 2013 am 7.45 y.h.**

| | | |
|-------------------------------------|--|---|
| Presennol | Diana Thomas-Laidlaw – Ysgrifenydd John Thomas - Cyd-Gadeirydd David Thomas- Cyd-Gadeirydd Christopher Smith - Trysorydd Robert Thomas Tyssul Evans - Lowri Thomas – Telesgôp Gwydion Wynne Hugh Williams | Mary Pugh Ann Richards Elin Jones Mark Jones Peter Jones Ian Jones Robert Rhys Lynwen Pierce Marc Griffiths |
| Ymddiheuriadau am Absenoldeb | Mrs.Brodrick Arwyn Richards David Saywell Rhys Anthony (Cyngor Sir) Sulwyn Thomas Einir Griffiths Brendan Griffiths | |

| | Gweithredu |
|--|-------------------|
| <p>MATERION YN CODI AC AGENDA.</p> <ol style="list-style-type: none">1. Gwnaeth DavidThomas groesawu pawb i’r cyfarfod.2. <u>Cywirdeb Cofnodion y cyfarfod blaenorol (15.11.2012)</u> Cadarnhawyd fod pawb wedi derbyn y copïau o gofnodion y cyfarfod blaenorol a ddanfonwyd trwy e.bost gan Diana. Derbyniwyd eu bod yn gywir. Gwnaeth Diana ddweud ei bod wedi derbyn llythyr wrth S4C yn cadarnhau’r penderfyniad i gomisiynu rhaglen ar hanner can mlwyddiant achub Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach. Cwmni Tinopolis fydd yn cynhyrchu’r rhaglen.3. <u>Adrodd yn ôl wrth yr Is-Bwyllgor Cyhoeddusrwydd</u> Nodwyd y pwynt canlynol gan Rob : * Bod Rhys Anthony – “Discover Wales” yn barod i’n helpu gyda’r cyhoeddusrwydd. Bydd angen i ni ddanfon rhestr o’r gweithgareddau ato, e.e. gall roi cyhoeddusrwydd i’r daith feicio o Dryweryn i Langyndeyrn, ac i rai o weithgareddau’r wythnos fawr. | |

O safbwynt tynnu'r llun o'r awyr, gwnaeth Tyssul agrymu y gallem logi naill ai craen uchel neu hofrennydd fach e.e. hofrennydd tebyg i'r un a ddefnyddir gan y Cyngor Sir i dynnu awyr-luniau. Byddai defnyddio'r hofrennydd ar yr un adeg a'r Cyngor Sir yn lleihau'r costau i ni.

4. Adrodd yn ôl wrth yr Is-bwyllgor Marchnata

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan Rob :

*Bod y calendrau wedi gwerthu'n dda iawn – bod 400 wedi eu gwerthu, ac y bu'n rhaid ail-argraffu ddwy waith ar ôl yr argraffiad gwreiddiol. Danfonwyd calendrau i Ogledd Cymru, Lloegr, Awstralia, Canada ac Ynysoedd y Falklands. Gwnaeth y calendr elw o £1357.00 yn glir mor belled. Yn y pen draw gobeithio bydd elw clir o tua £1600.

*Bydd yr Is-Bwyllgor Marchnata - yn canolbwyntio nesaf ar werthu printiau o'r llun gan yr artist Gareth Davies, yn ogystal â gwerthu cardiau cyfarchion yn seiliedig ar y llun.

*Efallai y bydd crochenwaith yn cael ei gynhyrchu nes ymlaen yn y flwyddyn hefyd. Nododd Gwydion bod Brian Thomas wedi gofyn am rai lluniau y gallai ef eu gosod ar blatiau. Nododd Ann y byddai'n syniad da i gynhyrchu mygiau neu blatiau i'w rhoi i blant yr ardal. Cafwyd cytundeb cyffredinol ar y pwynt hyn.

*Bydd y newyddlen nesaf yn dod allan ymhen rhyw bythefnos.

5. Adrodd yn ôl wrth yr Is-bwyllgor Cyllid/Gwneud Cais am Grantiau.

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan Christopher :

*Dywedodd bod Emyr - y swyddog grantiau yn awyddus i gael popeth yn orffenedig erbyn Mis Ebrill 2013 - sef bod popeth yn barod i'w roi ar y wefan, bod Robert Rhys yn cyflwyno ei infois i'r Pwyllgor, a bod Gwydion yn gwneud yr un fath, ac yna y gallai'r Pwyllgor dalu'r biliau ar yr un pryd.

*Nododd bod rhagor o arian ar gael yn y trydydd rownd, ac y gallem ystyried gwneud cais pellach am grant, e.e. am greu llwybr hanesyddol yn gysylltiedig a'r dechnoleg "smartphone."

*Nododd Ian bod posibiliad y gallem gael grant o £3,000 trwy "Gronfa Gweithgareddau'r" Sir. Gallai'r arian hyn fynd tuag at gostau llogi'r Marquee. Nododd Ian iddo ofyn am bris llogi Marquee (maint 120 troedfedd x 40 troedfedd) wrth y cwmnïau canlynol :

Absolute Marquees – Rhydaman

Cwmni Fedwen

Cwmni Dingle o Narberth

Dragon Events Hospitality

Nododd Ian iddo dderbyn tri pris- yr isaf yn £4,500 , a'r uchaf yn £11,000.

Cwmni "Dingle" wnaeth gynnig y pris £4,500 sy'n cynnwys TAW – ond nid yw'r pris yn cynnwys toiledau. Nododd bod cwmni "Dingle" yn edrych yn broffesiynol. Awgrymwyd byddai cael Marquee sgwâr yn well nag un hirsgwar.

Cafwyd trafodaeth o'r costau eraill y byddai'n rhaid i ni eu talu, e.e. a ydym ni am redeg y bar, neu a ydym am gael rhywun fewn i drefnu'r bar? Cafwyd trafodaeth fer hefyd ar ble fyddai'r Marquee yn cael ei osod. Awgrymwyd y gellid gwahodd cwmni "Dingle" i edrych ar y safleoedd posibl, e.e. Cae Preswylfa.

*Gwnaeth Marc awgrymu y dylem gynhyrchu pecyn proffesiynol yr olwg yn rhoi

amlinelliad o'r dathliadau rydym yn mynd i'w trefnu er mwyn cael noddwyr i'n noddi'n hael. Awgrymwyd y gallai Rob a Gwydion gynorthwyo i'w gynhyrchu.
*Nododd Chris bod £5,900 gyda ni yn y banc, ar ôl talu am y calendrau.

6. Adrodd yn ôl wrth yr Is-Bwyllgor Gweithgareddau/Codi Arian yn Lleol

Nodwyd y pwyntiau canlynol :

*Bod cyfarfod i'w gynnal ar nos Fercher 16eg o Ionawr yn Nhafarn y Gof gyda Deris, Gwenda a Carys Edwards i drafod y perfformiad "Dal ein Tir." Ni fydd y perfformiad hwn yn gwrthdaro gyda'r perfformiad sy'n cael ei drefnu gan Ysgol y Fro.

*Cynhelir y noson "Peint a Phennill" ymhen pythefnos . Bydd Mererid Hopwood, Tudur Dylan ac Arwel John yn bresennol. Bydd hysbyseb am y noson yn cael ei osod yn y "Journal."

*Bod Noson Agored i'w chynnal ar nos Wener Ionawr 18fed – pan fydd cyfle i dâpio trigolion yr ardal sydd yn barod i sôn am eu hatgofion o'r frwydr yn 1963. Yn ogystal nodwyd bod hysbyseb wedi ei osod ym Mhapur y Cwm a'r Journal i wahodd unrhyw un sydd a stori am yr ymgyrch i gysylltu a Brendan neu aelodau o'r pwyllgor.

*Nodwyd bod y cyfweiliadau casglu gwybodaeth ar gyfer y "Llyfr Atgofion" wedi dechrau, a bod y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i Robert a Gerwyn Rhys. Bydd Gwydion o bosibl yn gosod y tâpiau o'r lleisiau ar y wefan.

7. Robert Rhys

*Nododd bod Hywel Rees, mab y Parchedig W.M.Rees yn mynd i ysgrifennu llyfr yn seiliedig ar ddyddiadur ei dad adeg yr ymgyrch. Cafwyd trafodaeth ar y posibilrwydd o gyhoeddi'r llyfr hwn ar y cyd gyda'r "Llyfr Atgofion." Nodwyd bod Hywel Rees wedi siarad gyda Gwasg y Lolfa'n barod. Trafodwyd y manteision a'r anfanteision i ni o argraffu trwy'r Lolfa. Nododd Gwydion y gellid o bosibl cyhoeddi'r ddau lyfr trwy Canolfan Peniarth. Dywedodd Gwydion y byddai'n siarad gyda'r Is-Ganghellor, a gyda Hywel Rees ynglŷn â hyn.

G.W.

8. U.F.A.

Soniwyd am y posibilrwydd o gynhyrchu murlun yn yr ysgol yn seiliedig ar hanes ymgyrch 1963, ynghyd â hanes lleol yr ardal yn gyffredinol. Nodwyd bod Ann Rhys wedi gweithio gydag Ysgol Gwynfryn i gynhyrchu murlun hanes lleol yn y gorffennol.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ar Nos Fawrth 19eg o Chwefror 2013 am 7.45 y.h. yn nhafarn Y Gof, Llangyndeyrn.

10. Bydd copi Saesneg o'r cofnodion hyn ar gael yn y cyfarfod nesaf i'r rhai fydd yn awyddus i'w derbyn.

Diana Thomas-Laidlaw (Ysgrifenyddes y Pwyllgor Dathlu Achub Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach.)

| | |
|--|--|
| | |
| | |